# DAVIES, ALUN WYNNE GRIFFITHS (1924-1988), cerddor a beirniad

**Enw:** Alun Wynne Griffiths Davies
**Dyddiad geni:** 1924
**Dyddiad marw:** 1988
**Priod:** Margaret Davies (née Watts)
**Rhiant:** Emily Davies
**Rhiant:** William Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cerddor a beirniad
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth
**Awdur:** Rhidian Griffiths

Ganwyd Alun Davies 6 Ionawr 1924 yn Llandybïe, Sir Gaerfyrddin, yn fab i William ac Emily Davies. Pan oedd yn dair blwydd oed symudodd y teulu i Tooting, Llundain i werthu llaeth ac yno y'i maged. Yr oedd y teulu yn aelodau yng nghapel Annibynnol Radnor Walk, lle y dechreuodd feithrin ei ddiddordeb naturiol mewn cerddoriaeth, ond gan iddo golli ei dad pan oedd yn ddeuddeg oed, methodd barhau â'i addysg.

Wedi cyfnod yn helpu yn siop y teulu ymunodd â'r gwasanaeth sifil yn Llundain, gan weithio mewn sawl adran. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd gwasanaethodd yn Uned Ffotograffiaeth y Llu Awyr, a chadwodd ei ddiddordeb mewn ffotograffiaeth ar hyd ei oes. Yn 1976 ymunodd â'r Swyddfa Gymreig a symud i Gaerdydd. Yn Llundain buasai'n derbyn hyfforddiant yng Ngholeg y Drindod Llundain ac enillodd radd allanol B.Mus. Prifysgol Llundain yn 1962, ynghyd â diplomâu cerdd eraill, gan arbenigo ar arwain. Bu'n arwain mwy nag un côr yn Llundain, yn arbennig Côr Ieuenctid Cymry Llundain o 1963 hyd 1976, ac wedi ymuno â'r Swyddfa Gymreig ffurfiodd gôr yno.

Ef oedd prif olygydd cerddorol *Caniedydd yr Ifanc* (1980), llyfr emynau ieuectid yr Annibynwyr Cymraeg, a hefyd yn olygydd *Rhaglen Cymanfaoedd Canu Undeb yr Annibynwyr* a gyhoeddid bob dwy flynedd. Cyhoeddwyd nifer o'i drefniannau o alawon gwerin a gwelir tonau a threfniannau o'i eiddo mewn casgliadau enwadol. Bu'n aelod gweithgar o Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru ac yn drysorydd Cymdeithas Emynau Cymru. Yr oedd hefyd yn feirniad gwybodus ac adeiladol: cyfrannodd adolygiadau i amryw gylchgronau, gan gynnwys *Y Ddinas* (cylchgrawn Cymry Llundain), *Musical Opinion*, a *Cerddoriaeth Cymru*. Adeg ei farw, ef oedd gohebydd cerdd y *Western Mail*. Yr oedd yn gymeriad llawen a gasglodd nifer helaeth o gyfeillion a chysylltiadau.

Priododd ag un o aelodau ei gôr yn Llundain, Margaret Watts o Graig Cefn Parc, yn 1976, a bu iddynt ddau fab. Bu farw'n ddisymwth yng Nghaerdydd 12 Mehefin 1988. Cynhaliwyd ei angladd yng nghapel Minny Street ac amlosgwyd ei gorff yn Amlosgfa Thornhill.

## Awdur

**Rhidian Griffiths**

## Ffynonellau


*Cerddoriaeth Cymru, cylchgrawn y Gymdeithas er hyrwyddo Cerddoriaeth Cymru*, Gwanwyn/Haf 1988, Gaeaf 1988/9, Gwanwyn/Haf 1989

Adnabyddiaeth bersonol

Gwybodaeth gan ei deulu


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738016


**Dyddiad cyhoeddi:** 2013-02-05



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu